Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE
Dydd Gwener 20 Mai
am 10:00
Canolbwynt Cymunedol, Llysfasi / Cyfarfod Hybrid

Yn Bresennol

Aelodau Partneriaeth yr AHNE

Y Cynghorydd Bobby Feeley CSDd
Y Cynghorydd Paul Cunningham CSyFf

Cadeirydd y Bartneriaeth
Andrew Worthington OBE

Cynrychiolydd Buddion Tirwedd
Michael Skuse, David Davies

Cynrychiolydd Buddion Trefol
Rajan Madhok

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Huw Morgan, Sandy Archdale

Cynrychiolydd Hamdden a Hawliau Tramwy
John Roberts

Cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Carole Rothwell, Lyndsey Rawlinson

Cynrychiolydd Eryri Bywiol
Dr Emma Edwards-Jones

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Howard Sutcliffe	Swyddog yr AHNE
David Shiel	Rheolwr Ardal yr AHNE
Karen Weaver	Cydlynydd yr AHNE
Rachel Jones	Uwch Geidwad y Gogledd yr AHNE
Kate Thomson	Rheolwr Prosiect ETD
Hannah Arndt	Swyddog Mynediad a Hamdden
Graham Berry	Swyddog Rhostir
David Williams	Swyddog Cynllunio'r AHNE

Cynrychiolwr Cyngor Sir y Fflint
Tom Woodall — Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru
Alun Price — Swyddog Partneriaethau Gogledd-ddwyrain

Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Kathryn Moore

Arsylwyr y Cyfarfod
Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Julie Masters
Nick Ward

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:
Roger Cragg, Christine Evans, y Cynghorydd Hugh Jones, Tom Johnstone, Ian Papworth, Huw Rees

DRAFT

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorwyd y cyfarfod gan Howard Sutcliffe, y Swyddog AHNE a chroesawodd aelodau i'r Bartneriaeth. Eglurodd fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn hybrid ac y byddai'r Cadeirydd yn bresennol ar-lein. Croesawodd Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, Carole Rothwell a Lyndsey Rawlinson a Dr Emma Edwards-Jones, o Eryri Bywiol, ynghyd â Julie Masters a Nick Ward, Ymddiriedolwyr Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Cyflwynodd a chroesawodd David Williams hefyd, sydd newydd ei benodi fel Swyddog Cynllunio yr AHNE. Cyflwynodd yr Aelodau eu hunain o amgylch y bwrdd.

2. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Eglurodd Swyddog yr AHNE bod swyddi'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn rhai am gyfnod o ddwy flynedd a'i bod nawr yn amser penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer y Partneriaeth unwaith eto. Gofynnodd Swyddog yr AHNE am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham fod Andy Worthington, y Cadeirydd presennol, yn parhau fel Cadeirydd, eiliwyd hyn gan John Roberts. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn gallu parhau, a'i fod yn fodlon gwneud hynny.

Yna, gofynnodd Swyddog yr AHNE am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd. Cynigiodd John Roberts y Cynghorydd Paul Cunningham, yr Is-Gadeirydd presennol, ac eiliwyd hyn gan David Davies. Cadarnhaodd y Cynghorydd Cunningham ei fod yn gallu parhau fel Is–Gadeirydd, a'i fod yn fodlon gwneud hynny.

Penderfynwyd

- Bod Andrew Worthington yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Bartneriaeth tan fis Mehefin 2024.
- Bod y Cynghorydd Paul Cunningham yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd y Bartneriaeth tan fis Mehefin 2024.

3. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2022

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r rhan fwyaf o'r 'Materion sy'n Codi' yn cael eu trafod yn y cyfarfod.

Cynllun Rheoli'r AHNE

Dywedodd David Shiel, Rheolwr Ardal yr AHNE, bod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus wedi dod i ben, a derbyniwyd adborth da. Gobeithiwyd y byddai drafft o'r cynllun ar gael ym mis Mehefin.

Cais am Statws Awyr Dywyll

Cafodd dau gyhoeddiad eu cyhoeddi.
'Canllaw ar y Clystyrau a'u Chwedlau Cymreig' a 'Canllaw Goleuo'.
Dosbarthwyd copi o'r llyfrynnau i aelodau'r cyfarfod.

Ymweliad gan Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd

Roedd Ken Skates AS yn cydlynu trefniadau ar gyfer ymweliad i'r AHNE gyda'r Gweinidog.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

3b. **Cofnodion Cyfarfod Grŵp Llywio Ein Tirlun Darluniadwy**

Eglurodd Kate Thomson, Swyddog Partneriaeth, bod gwasanaeth bws ETD yn gweithredu unwaith eto eleni. Roedd mwy o wybodaeth ar gael ar wefan AHNE.

Bydd adroddiad nesaf ETD yn cael ei ddosbarthu i'r grŵp.

4. Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru

Rhoddwyd cyflwyniad power point gan Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, Carole Rothwell (Prif Gynghorydd, Tirwedd), a Lyndsey Rawlinson (Pennaeth Gweithrediadau i Ogledd Ddwyrain Cymru) (gweler ynghlwm). Yr oedd yn egluro'r drefn ar gyfer dynodi tirwedd yn Barc Cenedlaethol, a nodwyd bod y broses o ddynodi tirwedd yn anochel yn un hir a manwl (cynllun pum mlynedd), a bod y broses yn ymwneud â Gogledd Ddwyrain Cymru ar hyn o bryd yn y camau cychwynnol. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno (fel rhan o'i maniffesto) i greu Parc Cenedlaethol newydd i Ogledd Ddwyrain Cymru ac i ymestyn yr AHNE. Fodd bynnag, yr oedd y broses ddynodi'n gyfrifoldeb statudol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Byddai llywodraethu a chraffu ynghylch y dynodiad arfaethedig, a rhoddid ystyriaeth allweddol i sut y gallai'r dynodiad effeithio pobl sy'n byw, gweithio a ffermio yn yr ardal. Pwysleisiwyd y byddai'r dynodiad yn golygu cost ac ymrwymiad sylweddol, ac yr oedd yn hanfodol bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd a sicrheid bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ar gyfer yr ardal.

Eglurwyd nad oedd yr AHNE presennol yn ddigon mawr i gael ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol, ac y byddai ardaloedd eraill yn cael eu hystyried er mwyn ei hymestyn. Cafwyd trafodaeth i ddilyn. Gofynnwyd a fyddai Hiraethog/Mynydd Hiraethog yn cael ei ystyried ac os felly, a allai fod achos gyda thyrbinau gwynt sydd eisoes yno. Eglurwyd bod maint safleoedd ynni adnewyddadwy o fewn tirwedd a ddiogelir yn peri pryder, ac y byddai harddwch naturiol tirwedd yn cael ei ystyried. Awgrymwyd y Berwyn hefyd fel ardal â photensial o ran ymestyn, yr oedd ar hyn o bryd yn Warchodfa Natur Genedlaethol, ond yr oedd yn gwahodd ystyriaeth ddifrifol ar gyfer dynodiad ychwanegol.

Byddai CNC hefyd yn ystyried adfer tirwedd, newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel rhan o'r broses.

Nodwyd, pe ceid dynodiad yn Barc Cenedlaethol, byddai cynllunio yn gyfrifoldeb i Fwrdd y Parc. Yr oedd camdybiaethau y byddai mwy o gyfyngiadau gyda statws Parc Cenedlaethol, ond teimlwyd bod tystiolaeth o ardaloedd eraill a arolygwyd yn dangos na fyddai hynny'n wir. Cynigodd un o'r aelodau bod templed yn cael ei ddrafftio er eglurder, yn egluro'r broses gynllunio ar gyfer parc Cenedlaethol.

Mynegwyd pryderon ynghylch cyflwr annigonol isadeiledd yr ardal, ar gyfer mewnlifiad posibl o ymwelwyr, a bod y toiledau wedi eu cau. Ymatebodd Swyddog yr AHNE bod y dirwedd yn bwysig yn genedlaethol ac y byddai addysg yn hanfodol. Byddai awdurdod un pwrpas yn gallu mynd i'r afael â'r holl fathau o broblemau a godwyd. Byddai cyllid sylweddol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn dod gyda statws Parc Cenedlaethol.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd bod cyfleoedd cyffrous a heriau yn amlwg o'n blaenau, a bod yn rhaid rhannu a thrafod y rhain gyda'r cymunedau amaethyddol a'r bobl sy'n byw a gweithio yn yr ardal. Mae'n rhaid i dimau CNC a'r AHNE sicrhau y byddent yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt yn llawn. Pwysleisiodd Lyndsey Rawlinson bod y dynodiad ar ddechrau proses hir a bod CNC yn gwerthfawrogi mewnbwn y Bartneriaeth.

Camau gweithredu

- Gwahodd Lyndsey Rawlinson a Carole Rothwell i gyfarfod nesaf y bartneriaeth er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r grŵp.
- Dosbarthu'r cyflwyniad i'r grŵp.

5. Cynllun Hamdden ar gyfer Canolbarth Bryniau Clwyd

Rhoddwyd cyflwyniad power point gan Dr Emma Edwards-Jones, Rheolwr Prosiect Eryri Bywiol. (gweler ynghlwm). Cafwyd trafodaeth i ddilyn.

Costau parcio ceir - eglurodd Rheolwr Ardal yr AHNE y defnyddir tariffiau yn safleoedd yr AHNE ar gyfer rheoli pwysau ymwelwyr (po hiraf eich arhosiad, y mwyaf y byddwch yn ei dalu) er mwyn annog ymwelwyr i ystyried pa mor hir maent yn bwriadu aros, ychwanegodd bod yr holl arian a gesglir trwy'r tariffau yn cael ei dalu'n ôl i'r gwasanaeth yn uniongyrchol, a'i fod o gymorth i gynnal y safleoedd.

Awgrymwyd y dylid defnyddio dull cyson drwy bob Awdurdod Lleol o fewn yr AHNE o ran tariffau.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd fod mwy o ymwelwyr yn defnyddio'r AHNE at ddibenion hamdden, ac felly wrth ddechrau ar y broses o ddynodi'n Barc Cenedlaethol, ei bod yn hanfodol cyfathrebu gyda pherchnogion tir a'r gymuned amaethyddol. Mae rhai o'r pwysau sydd ar yr AHNE o ganlyniad i isadeiledd annigonol. Roedd angen adnoddau ar gyfer y rhan fwyaf o'r argymhellion ac felly dyna pam y croesawir statws Parc Cenedlaethol ar gyfer helpu i ddatrys y materion hyn mewn ffordd effeithlon. Roedd y cynllun yn cynnwys dealltwriaeth a gwybodaeth werthfawr y gellid ei bwydo i'r broses o ddynodi Parc Cenedlaethol.

6. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Swyddog yr AHNE

Rhoddodd Howard Sutcliffe, Swyddog yr AHNE ddiweddariad ar lafar:

- Llywodraeth Cymru - Sicrhawyd tair blynedd o gyllid ar gyfer Mannau Arbennig (adfer natur a datgarboneiddio). Yn ogystal â sicrhau £50,000 o grant dros dair blynedd ar gyfer y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a £50,000 ychwanegol ar gyfer darparu'r Cynllun Rheoli.
- Mae'r AHNE wedi prynu UTV a fan drydan yn ddiweddar.
- Seminar Pori – roedd y prosiect bellach wedi dod i ben, ac roedd yr AHNE yn gobeithio parhau â rhywfaint o'r gwaith a gyflawnwyd gan y prosiect.
- Cymunedau Gwyrdd – roedd Hannah Arndt yn arwain y prosiect, ar gyfer cymunedau o fewn yr AHNE, CSDd a CBSW.

Swyddog Cynllunio'r AHNE
Roedd Dave Williams wedi dechrau ei rôl fel Swyddog Cynllunio ar gyfer yr AHNE.
Roedd Dave wedi ymddeol yn ddiweddar o'i swydd flaenorol fel Pennaeth Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n gweithio ar ddydd Mercher a dydd Iau.

Aelodaeth y Bartneriaeth
Yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol yn ddiweddar, yr oedd yr aelodau canlynol yn ymddeol:
Tony Thomas, cyn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor.
Aelodau CSDd: Martyn Holland, Owen Thomas
Aelodau CSyFf: Colin Legg, Derek Butler
CBSW: David Kelly, Sonia Benbow-Jones

Ymddiswyddiadau o'r Bartneriaeth
Dywedodd Swyddog yr AHNE bod Tony King yn anffodus, wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o'r grŵp. Roedd Tony yn aelod hirsefydlog o'r Bartneriaeth a'r JAC cyn hynny, yn ogystal ag aelod o'r Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau. Roedd hefyd yn aelod o Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac yn wirfoddolwr hirsefydlog. Diolchodd Swyddog yr AHNE i Tony am ei holl gefnogaeth i'r AHNE dros y blynyddoedd, a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol.
Cam gweithredu
Y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr i ddiolch i Tony King a'r Aelodau sy'n ymddeol.

Gwobr AHNE ar gyfer 2022
Derbynnir enwebiadau ar gyfer y wobr ar hyn o bryd.

7. Unrhyw Fater Arall
Ni chodwyd unrhyw fater arall.

8. Crynhoi'r Cyfarfod gan y Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddogion CNC, Carol a Lyndsey am eu cyflwyniad, gan ychwanegu bod angen ystyried yr ardal estynedig mewn manylder, a bod yr ANHE yn edrych ymlaen i weithio mewn Partneriaeth onest â nhw. Byddai diweddariad bob chwe mis yn cael ei groesawu'n fawr.
Diolchodd hefyd i Dr Emma Edwards-Jones, Swyddog Eryri Bywiol, gan edrych ymlaen at drafodaeth yn y dyfodol a mynd i'r afael â'r argymhellion.
Llongyfarchodd y Cadeirydd Wrecsam ar ennill statws dinas.

9. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE	**Dydd Gwener 29 Gorffennaf**	**2022**	**14:00**	**Lleoliad i'w benderfynu**
Fforwm Blynyddol yr AHNE	**Dydd Iau 22 Medi**	**2022**	**19:00**	**Lleoliad i'w benderfynu**
Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE	**Dydd Gwener 14 Hydref**	**2022**	**10:00**	**Lleoliad i'w benderfynu**
Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE	**Dydd Gwener 4 Tachwedd**	**2022**	**10:00**	**Lleoliad i'w benderfynu**